Pengwiniaid

Gall gweithgareddau 'torri'r iâ' fod, i bob golwg, yn ymyriadau dibwrpas neu'n oedi anghyfforddus! Fodd bynnag, maen nhw'n ddefnyddiol i gael cyngor ysgol i ymlacio, chwalu rhai o'r rhwystrau oed artiffisial sydd o bosibl yn bodoli mewn ysgol, a nodi newid mewn diwylliant a meddwl.
Mae yna lawer o lyfrau a gwefannau gyda syniadau gwych. Un o'n hoff syniadau yw 'Pengwiniaid'.

Deunyddiau:

- Dim.

Sut:

Sefwch mewn cylch neu lle bynnag mae yna le. Mae angen i bengwiniaid gyrraedd y môr ac maen nhw'n cerdded gan daro'u dwylo'n ysgafn yn erbyn eu cluniau.

Maen nhw'n dod ar draws rhwystrau ar y siwrnai:

"Arth fach!" mae pawb yn pwyntio ac yn dweud "aarrhh".
"Arth fawr!" mae pawb yn sgrechian.
"Carreg fach!" mae pawb yn gwneud naid fach.
"Carreg fawr!" mae pawb yn gwneud naid fawr.
"Coeden, neidiwch i'r dde!"
"Coeden, neidiwch i'r chwith!"

Ar ôl gweiddi amryw o gyfuniadau, gorffennwch gyda "neidiwch i mewn i'r môr!" Sblas!

Y pwynt yw bod cyngor ysgol, fel pengwiniaid, yn wynebu penderfyniadau sydd â llawer o rwystrau a phethau i dynnu'ch sylw cyn ichi gyrraedd lle rydych chi am fod!

Addasiadau:

- Mae'n bosibl ddatblygu'r gêm gan ddefnyddio awgrymiadau fel:
  "Pont isel!"
  "Cerddoriaeth!"
  "Heliwr!" ac ati
- Mae hi hefyd yn bosibl chwarae'r gêm yn eistedd wrth fwrdd.